

HYSBYSIAD O GADARNHAD GORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257 **A PHARAGRAFF 1 O ATODLEN 14**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR **(CAU LLWYBR TROED 58 CYMUNED MAESTEG A** **DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 58 CYMUNED MAESTEG)** **GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 3, 2025**

Ar 14/01/2026, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y Gorchymyn uchod.

Effaith y Gorchymyn a gadarnhawyd fydd cau'r rhan honno o Lwybr Troed 58 Maesteg sy'n dechrau ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid: SS 8493 9169) ac sy'n parhau'n gyffredinol tua'r gogledd am 32 metr i Bwynt D (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9172), yna'n parhau tua'r dwyrain / gogledd-ddwyrain am 70 metr i Bwynt E (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9175) lle mae'n dod i ben, a dargyfeirio'r rhan honno o Lwybr Troed 58 sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de / de-orllewin am oddeutu 51 metr i Bwynt B (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9179) lle mae'n dod i ben yn y rhan newydd o'r llwybr troed sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de / de-orllewin am 8 metr i Bwynt F (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184), yna'n parhau'n gyffredinol ar hyd llwybr sydd eisoes wedi'i adeiladu tua'r de / de-ddwyrain am tua 130 metr i gwrdd â'r llwybr troed mabwysiedig ym Mhwynt G (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9172), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Mae copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn y brif dderbynfa yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod o 8:30am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 8:30am tan 4:30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk / ffôn: 01656 642537, neu gellir ei archwilio ar-lein ar: <https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/>. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 12/02/2026, ond os yw unrhyw berson sy'n teimlo'n flin am y gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf uchod, neu ar y sail nad yw unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed oddi tani wedi'i gydymffurfio mewn perthynas â chadarnhau'r gorchymyn, caiff ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys at unrhyw un o'r dibenion hyn o dan adran 287 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 cyn pen 6 wythnos o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad gyntaf fel sy'n ofynnol gan baragraff 7 o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno. Os hoffech gael yr hysbysiad hwn ar ffurf arall – er enghraifft, print mwy o faint, sain, Braille neu ffacs – cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod, neu drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn: 01656 643643). Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

DYDDIEDIG: 22/01/2026

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.